# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT2 09-05

Dyddiad y cyfarfod: 29 Mehefin 2005
Amser y cyfarfod: 9.00-12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tasmin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Dr Ron Loveland | Prif Swyddog Technoleg |
| Dr Emyr Roberts | Prif Weithredwr WEFO |
| Kathryn Markey | WEFO |

## Eraill

| | | Eitem(au) |
|---|---|---|
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru | 3 |
| Steve Webb | Cyfarwyddwr Strategaeth Bwrdd Croeso Cymru | 3 |
| Dr Robin Fears | Cynghorwr Arbenigol i Adolygiad y Polisi Gwyddoniaeth | 4 |
| Andrew Nock | Noddwr Etholfraint - Yr Adran Drafnidiaeth | 5 |
| Charlie Hodgson | Cynghorwr Manyleb yr Etholfraint - yr Adran Drafnidiaeth | 5 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirpwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
## Papur: EDT2 09-05 (p1)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i baratoi adroddiad erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn egluro'i bryderon ynghylch Is-adran Ryngwladol y WDA ac yn fwy cyffredinol, y datblygiadau posibl ar gyfer cangen buddsoddi'r WDA.

Cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn ar gyfer y Pwyllgor ynghylch y sefyllfa bresennol o ran pennu gwahanol lefelau o ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach yng Nghymru.

Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu rhagor o wybodaeth yn gysylltiedig â gosod y Biotechnium yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol.

## Eitem 3: Bwrdd Croeso Cymru - Adolygiad Diwedd Blwyddyn
## Papur: EDT2 09-05 (p2)
## Camau i'w Cymryd

Cytunodd Bwrdd Croeso Cymru i baratoi copi o Strategaeth Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'r Aelodau.

Cytunodd Bwrdd Croeso Cymru i baratoi nodyn ar y gwahanol ffynonellau o gyllid UE sydd ar gael iddynt.

## Eitem 4: Adolygiad Polisi Gwyddoniaeth - Cylch Gorchwyl
## Papur: EDT2 09-05 (p3)

Cytunodd yr Aelodau â'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad. Cytunwyd hefyd i gomisiynu papur ymchwil annibynnol i nodi 'yr hyn y mae Cymru yn rhagori ynddo' i gydredeg â'r broses ymgynghori a’r broses o gymryd tystiolaeth.

## Eitem 5: Etholfraint y Great Western
## Papur: EDT2 09-05 (p4)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd yr Adran Masnach a Diwydiant i roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am amseroedd trenau sy'n mynd teithio o orsaf Paddington i Abertawe.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Adran Masnach a Diwydiant i fynegi pryder yr Aelodau ynghylch Etholfraint y Great Western.

## Eitem 6: Adroddiad Chwarterol ar Gronfeydd Strwythurol
## Papur: EDT2 09-05 (p5)
## Camau i'w cymryd

Cytunodd swyddogion WEFO i gynnwys y tablau allbwn, a gaiff eu hanfon i'r pwyllgorau monitro, gyda'u hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor.

Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ystyried a oedd yn gallu rhyddhau'r adroddiadau interim a gafwyd yng nghyswllt yr wybodaeth ddiweddaraf ar y Gwerthusiad Canol Tymor. Roedd angen edrych ar y trefniadau cytundebol.

## Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

## Papur: EDT2 08-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin
## Papur: EDT2 09-05 - Camau heb eu cymryd

5.1 Dywedodd Kirsty Williams mai hi, ac nid Jenny Richardson, oedd yn cyfarfod diwethaf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cofnodion yn cael eu newid i ddangos hynny.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau